

# Lle i'w Alw'n Gartref

Deall ansawdd lleoliadau yn y system gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru

Lle i'w Alw'n Gartref:

# Deall ansawdd lleoliadau yn y system gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru

## Cynnwys


Cyflwyniad ... 3

Y sefyllfa yng Nghymru hyd yn hyn ... 3

Y Rhaglen Lywodraethu ... 3

Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol ... 4

Ein hymchwil ... 5

Ein canfyddiadau ... 6

Beth sy'n gwneud cartref da i blentyn sydd mewn gofal? ... 6

Rhywle sy'n teimlo fel adref ... 6

Perthnasoedd cadarnhaol a staff arbenigol ... 6

Gofal gwych o ddydd i ddydd ... 7

Mynediad at gyfleoedd a chymorth ... 8

Beth sy'n atal cartrefi rhag bod yn lleoedd da i fyw? ... 9

Problemau recriwtio a chadw staff ... 9

Dod o hyd i gartref sy'n diwallu anghenion plentyn ... 9

Methu â mynegi eu teimladau ... 9

Beth sydd angen newid er mwyn darparu cartrefi gwell i blant sydd mewn gofal? ... 10

Beth nesaf? ... 11

Diolchiadau ... 11

# Cyflwyniad

Ar 31 Mawrth 2023 roedd 7,208 o blant yn 'derbyn gofal' yng Nghymru. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu'n gyson dros y degawd diwethaf – er gwaethaf gostyngiad bach yn 2022. Am bob 10,000 o bobl dan 18 oed yng Nghymru, mae 116.3 mewn gofal, o'i gymharu â 91 ym mhob 10,000 yn 2013.

Mae hyn wedi achosi heriau sylweddol i awdurdodau lleol ledled Cymru.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Lleoliadau priodol (paru plant â'r cartrefi priodol a all ddiwallu eu hanghenion).**
- **Safle lleoliadau (gall plant gael eu hanfon o'u cymunedau i siroedd eraill).**
- **Prinder lleoliadau mewnol a'r trydydd sector (gweithredwyr preifat yw'r unig opsiwn weithiau).**
- **Mwy o ddefnydd o leoliadau heb eu rheoleiddio.**
- **Dim cystadleuaeth (mae llai o opsiynau'n golygu bod y gost yn codi).**

## Y sefyllfa yng Nghymru hyd yn hyn

### Y Rhaglen Lywodraethu

Gall yr heriau y tynnwyd sylw atynt gennym gael effaith ddramatig ar blant a phobl ifanc.  Weithiau mae angen symud plant o'u cymunedau. Mae ar lywodraeth Cymru eisiau gweld mwy o leoliadau lle mae cysylltiadau â chymdogaethau a chymunedau lleol yn dal i ddarparu dilyniant.

Mae llywodraeth Cymru hefyd yn awyddus i wella sefydlogrwydd lleoliadau. Maen nhw'n teimlo bod angen i Gymru ddatblygu mwy o opsiynau lleoli o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc. Ar 23 Mawrth, roedd 669 o'r plant a oedd mewn gofal yng Nghymru wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn – cynnydd o 8% ers y flwyddyn flaenorol.

Er mwyn helpu i ddatrys y problemau hyn, cyflwynodd Rhaglen Lywodraethu Cymru wyth ymrwymiad i wasanaethau plant:

1. **Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.**
2. **Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd.**
3. **Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl, ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.**
4. **Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.**
5. **Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eiriolaeth i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.**

## Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyflwynwyd y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Senedd ar 20 Mai 2024. Ar hyn o bryd mae yng nghyfnod 1 (y Pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a'r Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny). Byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Dim ond paragraff 4 o atodlen 2 i'r Bil, sy'n diwygio Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, fyddai ddim o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae angen cydsyniad llywodraeth y DU i ddod ag ef o fewn cymhwysedd y Senedd. Nid yw'r cydsyniad hwn wedi'i roi eto.

Nod Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yw:

- **Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.**
- **Galluogi cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG.**
- **Gwneud diwygiadau i sicrhau y gall Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 weithredu yn llawn ac yn effeithiol.**
- **Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau'r system ofal.**
- **Parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.**
- **Cefnogi ein cynllun cenedlaethol Maethu Cymru.**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf y bydd cyflwyno Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) o gymorth mawr er mwyn bodloni'r ymrwymiadau uchod.

Mae'r bil newydd yn dilyn mesurau dros y tair blynedd ar ddeg diwethaf i wella gofal cymdeithasol plant yng Nghymru:

Yn 2014 cyflwynwyd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Sefydlodd fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol er mwyn gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, ar gyfer gofalwyr sydd angen gofal a chymorth ac er mwyn trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Yn 2016 cyflwynwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae Deddf 2016 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol, ynghyd â fframwaith ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Drwy'r Bil newydd hwn, mae gweinidogion yn ceisio gwella gofal cymdeithasol yma yng Nghymru ymhellach. Yn fwyaf arbennig, mae'r bil yn ceisio dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.

**Dileu elw o ofal**

Fel aelod o fwrdd y Rhaglen, mae Gweithredu dros Blant yn parhau i gefnogi'r ymgyrch i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Roeddem yn falch o weld y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Mai eleni. Bydd y Bil yn cyfyngu ar allu'r sector preifat i dynnu elw o amgylchedd gofal cymdeithasol plant, gan newid y pwyslais i sicrhau bod darparwyr nid-er-elw ac awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau maethu, cartrefi plant a llety diogel. Mae angen caniatáu digon o amser er mwyn sicrhau bod y pontio'n digwydd yn ddirwystr ac nad oes unrhyw niwed i bobl ifanc.

## Ein hymchwil

Wrth i'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol fynd drwy'r Senedd, mae arnom eisiau sicrhau bod profiadau pobl ifanc, a'r rhai sy'n gweithio yn y sector, yn siapio penderfyniadau'r rhai sy'n llunio polisïau.

Ar gyfer ein hymchwil, fe wnaethom gyfweld staff sydd â phrofiad o ddarparu cartrefi i blant sydd mewn gofal yng Nghymru. Roedd ein cwestiynau'n cynnwys:

- Beth sy'n gwneud cartref da i blentyn sydd mewn gofal?
- Beth sy'n atal cartrefi rhag bod yn lleoedd da i fyw?
- Beth sydd angen newid er mwyn darparu gwell cartrefi i blant sydd mewn gofal?

# Ein canfyddiadau

## Beth sy'n gwneud cartref da i blentyn sydd mewn gofal?

### Rhywle sy'n teimlo fel adref

Dywedodd y staff y dylai pob cartref fod yn briodol i'r person ifanc sydd mewn gofal a theimlo fel adref. Siaradodd un person am bwysigrwydd y broses baru a chynnwys barn arbenigwyr yn y broses honno. Roedd y staff hefyd yn bendant bod rhai pethau sylfaenol y dylai pob cartref eu cael yn iawn.

***"Dylai cartref preswyl da fod yn debyg i adref i unrhyw blentyn neu berson ifanc ac mor agos ag sy'n bosibl at fyw gyda'u teulu. Dylai fod o safon dda, yn gynnes ac yn groesawus. [Dylai] plant a phobl ifanc deimlo'n saff ac yn ddiogel a [bod yn] falch o groesawu ffrindiau, teulu ac ymwelwyr heb deimlo bod y cartref yn debyg i sefydliad neu'n wahanol i gartref teuluol."***

Mae darparu elfen o bersonoleiddio yn bwysig er mwyn gwneud i blant deimlo'n gartrefol – o ran yr amgylchedd ffisegol a'r gofal a chymorth a roddir i blentyn.

***"Mae personoleiddio'r amgylchedd yn bwysig hefyd. Er enghraifft, rydym yn hoffi annog ein pobl ifanc i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o bersonoleiddio eu hystafell wely ac ardaloedd eraill sy'n cael eu rhannu fel eu bod nhw'n teimlo bod ganddyn nhw fewnbwn i'w cartref eu hunain. Rydym hefyd yn annog cynnwys pobl ifanc wrth ddewis gweithgareddau, hobïau/diddordebau a thripiau i aros yn rhywle. Rydym yn ceisio sicrhau bod y cartref preswyl yn lle diogel, sy'n meithrin [plant a phobl ifanc] ac sy'n gallu addasu er mwyn hybu twf personol a diwallu anghenion datblygiadol unigolion."***

### Perthnasoedd cadarnhaol a staff arbenigol

Y nodwedd cartref da y cyfeiriwyd ati amlaf gan bobl mewn cyfweliadau oedd y perthnasoedd rhwng staff a phobl ifanc.

***"Mae perthnasoedd yn hollbwysig. Gallwn gael y cyfleusterau a'r gweithgareddau gorau, ond os nad oes gennym berthnasoedd cadarnhaol sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda'n pobl ifanc fel unigolion, ni fydd y ddarpariaeth breswyl byth yn teimlo fel eu cartref. Mae hyn yn dibynnu llawer iawn ar yr unigolion a beth mae arnyn***

***nhw ei eisiau gennym ni. Yn aml iawn [mae'n golygu] sut maen nhw'n gweld oedolion. Bydd llawer wedi cael eu siomi gan oedolion yn y gorffennol am resymau amrywiol. Eu deall nhw fel unigolion, annog eu cryfderau a'u helpu i fod y fersiwn gorau ohonyn nhw eu hunain bob diwrnod fydd yn adeiladu'r ymddiriedaeth yna gobeithio."***

***"Mae cael tîm cyson o ofalwyr sy'n deall hanes ac anghenion y plentyn yn hybu ymddiriedaeth a diogelwch. Pan fydd gofalwyr yn ymateb â chynhesrwydd a pharodrwydd i wrando, yn enwedig pan fydd person ifanc yn cael pethau'n anodd, mae hynny'n hybu'r syniad bod y cartref yn hafan ddiogel lle gallan nhw fod yn nhw eu hunain heb ofni cael eu barnu."***

## Gofal gwych o ddydd i ddydd

Roedd y bobl a gyfwelwyd gennym yn siarad yn rheolaidd am y gofal a'r cymorth go iawn a oedd yn cael ei gynnig i bobl ifanc. Gall darparu gofal gwych fod yn gymhleth. Ond yn aml iawn roedd pobl yn siarad am yr elfennau syml – fel ffurfio perthnasoedd a sefydlu trefn reolaidd a chyson.

***"O ddydd i ddydd gall fod mor syml ag eistedd a gwylio'r teledu gyda nhw, paratoi bwyd a bwyta gyda'i gilydd – trefniadau cadarnhaol sy'n cefnogi eu llesiant. Gobeithio y bydd hyn yn ei dro'n eu galluogi i gael mynediad at addysg ar lefel sy'n briodol iddyn nhw, i gael digon o fwyd a gorffwys, ac i fod yn y lle gorau i ddysgu."***

***"Mae cartref preswyl da yn cael ei ddiffinio ar sail ei allu i greu awyrgylch cyson, llawn gofal, lle gall plant deimlo eu bod nhw'n perthyn."***

Un o'r prif nodweddion a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau ynglŷn â'u cartref a'u gofal eu hunain.

***"Rydym yn defnyddio dull meithrin/perthynas gyda'n pobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw ac yn teimlo eu bod yn perthyn. Mae ein pobl ifanc yn cael eu cynnwys ym mhob proses gwneud penderfyniadau yn y cartrefi. Maen nhw'n cael dewis cymryd rhan yn eu hadolygiadau a gosod targedau personol drwy gydol eu harhosiad."***

***“Mae ein sesiynau un-i-un yn aml yn anffurfiol – rhywbeth mor syml â mynd i rywle yn y car efallai. Ond yn aml iawn rydyn ni’n cael gwybodaeth werthfawr [ynglŷn â] beth mae ein pobl ifanc yn ei hoffi, neu ddim yn ei hoffi, ac maen nhw hefyd yn cyfrannu tuag at y perthnasoedd roedden ni’n sôn amdanyn nhw uchod.”***

## Mynediad at gyfleoedd a chymorth

Dywedodd staff wrthym am y cyfleoedd a’r cymorth allanol y mae ar rai plant ei angen.

***“[Mae arnyn nhw angen cyfleoedd a chymorth allanol er mwyn] sicrhau y gallan nhw fod yn blentyn/person ifanc yn y gymuned lle maen nhw’n byw, cyrraedd cerrig milltir datblygiadol, cael hwyl a chael eu cadw’n ddiogel rhag niwed. Ni ddylent golli unrhyw gyfle dim ond oherwydd eu bod mewn gofal. [Dylai eu cartref fod yn] rhywle lle maen nhw eisiau dod â’u ffrindiau draw am de neu i aros dros nos.”***

***“Mae darparu gweithgareddau amrywiol sy’n hybu dysgu, creadigrwydd a chysylltiadau cymdeithasol o fudd i’w mwynhad presennol a’u datblygiad hirdymor. Mae ein pobl ifanc yn cael eu hannog i fynegi eu barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, gan wneud iddyn nhw deimlo eu bod nhw’n cael eu parchu a’u gwerthfawrogi.”***

Siaradodd y staff am gyfleoedd a dod o hyd i weithgareddau sy’n cyfateb i ddiddordebau plant. Cyfeiriasant hefyd at bwysigrwydd gallu cysylltu a gweithio mewn cysylltiad agos â gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod plant yn cael y cymorth y mae arnyn nhw ei angen.

## Beth sy'n atal cartrefi rhag bod yn lleoedd da i fyw?

Siaradodd llawer o staff am y canlyniadau pan nad yw'r gofal cadarnhaol y cyfeiriwyd ato uchod yn digwydd.

### Problemau recriwtio a chadw staff

Y brif broblem a ddaeth i'r amlwg oedd staff. Siaradodd y staff am recriwtio, cadw staff a hyfforddi. Roeddent yn aml yn cydymdeimlo â'r heriau y mae pobl eraill sy'n gweithio yn y sector yn eu hwynebu.

***"Os nad yw aelodau o staff wedi cael digon o hyfforddiant mewn gofal sy'n ystyriol o drawma, mae risg y gallent aildrawmateiddio plant yn anfwriadol, neu fethu â chynnig y cymorth angenrheidiol. Gallai'r patrymau hyn arwain at sefyllfaoedd lle mae pobl ifanc yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu trin yn iawn, yn teimlo'n anghyfforddus a heb gefnogaeth. Gallai hyn gael effaith negyddol hirdymor arnyn nhw."***

### Dod o hyd i gartref sy'n diwallu anghenion plentyn

Siaradodd y staff am baru, a'r effaith negyddol y gall rhuthro i ddod o hyd i leoliad neu lenwi cartref ei gael ar blant.

***"Rydw i wedi ymweld â chartrefi lle maen nhw wedi cael eu brysio i agor a [lle does ganddyn nhw] ddim rheolaeth dros bwy sy'n cael ei leoli gyda nhw, felly does neb yn ystyried cydnawsedd wrth baru."***

Roedd hynny'n cynnwys sefyllfaoedd lle nad oedd cartrefi wedi'u cynllunio o amgylch plant, a lle roedd pob cartref yr un fath – yr un ateb yn addas i bawb.

### Methu â mynegi eu teimladau

Elfen ganolog o greu lle da i fyw oedd pwysigrwydd cynnwys plant mewn penderfyniadau yn ymwneud â'r cartref ac yn ymwneud â nhw eu hunain. Roedd rhwystrau a oedd yn atal hyn rhag digwydd yn cael eu gweld fel heriau sylweddol wrth geisio darparu cartrefi da.

Dywedodd y staff fod perthnasoedd yn hollbwysig er mwyn gwneud i hyn ddigwydd.

***"Rwy'n teimlo bod perthnasoedd yn ffactor hollbwysig wrth ystyried a yw plant yn gallu mynegi eu teimladau ynglŷn â'r cymorth preswyl maen nhw'n ei gael."***

Cyfeiriodd y staff hefyd at gael ffyrdd amrywiol o alluogi pobl ifanc i rannu eu teimladau a'u meddyliau yn hytrach na disgwyl cael adborth drwy sianeli penodol ar adegau penodol.

Er enghraifft:

*"Mae un o'n pobl ifanc yn aml yn dweud yn union beth mae o'n ei deimlo pan fydd yn mynd am dro hir gyda'r staff. [Mae hyn] o bosibl oherwydd ei fod o'n gyfarwydd â'r aelod o staff, o bosibl oherwydd ei fod yn teimlo ei fod mewn lle diogel yn ddigon pell oddi wrth bobl eraill sy'n byw yn y cartref. [Mae'n] bendant oherwydd ei fod wedi ymlacio, ac ni fyddai'n debygol o gyfathrebu pe bai'n eistedd yn y tŷ a rhywun yn gofyn cwestiwn uniongyrchol iddo."*

*"Gall cyswllt rheolaidd, lle mae gweithwyr proffesiynol yn gwrando'n astud heb farnu, yn ogystal â chyfleoedd creadigol megis peintio neu therapi chwarae, helpu ein pobl ifanc i siarad yn agored am eu profiadau."*

*"Bydd angen iddyn nhw gael mynediad at eu gweithiwr cymdeithasol, eu therapydd, eu hathrawon, a gweithwyr proffesiynol eraill megis Eiriolwyr neu Ymwelwyr Annibynnol, [ynghyd ag] oedolion eraill y gallan nhw siarad â nhw. Mae angen i ni rannu pethau â gwahanol bobl ar wahanol adegau."*

## Beth sydd angen newid er mwyn darparu cartrefi gwell i blant sydd mewn gofal?

Yn olaf, gofynasom i staff yng Nghymru beth sydd angen newid er mwyn darparu gwell cartrefi i blant sydd mewn gofal. Y prif gwestiwn y byddai staff yn hoffi i bobl sy'n gwneud penderfyniadau ei ofyn oedd – a fyddai hyn yn ddigon da i'w plant nhw eu hunain? Roedd yna hefyd rai meysydd penodol yr oedd arnyn nhw eisiau i bobl sy'n llunio polisïau eu hystyried.

1. **A oes digon o gartrefi?** Roedd hynny'n cynnwys sicrhau bod digon o gartrefi priodol ar gyfer plant sy'n methu â byw gyda'u teuluoedd. Dywedodd un aelod o'r staff y dylai hyn ddechrau â digon o "Amgylcheddau cartrefol, bach â chymhareb plant-i-staff isel [a] all ddarparu gofal perthynol wedi'i bersonoleiddio na all sefydliadau mawr ei ddarparu".
2. **A oes staff priodol â'r cymorth priodol ar gael?** Cyfeiriwyd yn gyson at y bobl sydd yn y system a'u perthnasoedd â phobl ifanc. Dywedodd un aelod o'r staff y dylai pobl

sy’n gwneud penderfyniadau:

*“…sylweddoli bod y bobl sy’n gweithio ym maes gofal yn bobl sydd â llawer o sgiliau a bod arnynt angen digon o hyfforddiant, datblygiad parhaus ac ymrwymiad. Mae angen i hyn gael ei adlewyrchu yn eu tâl a’r gydnabyddiaeth a ddangosir i’r rhai sy’n gweithio yn y sector yma.”*

3. **A yw plant yn cael y math priodol o ofal a chymorth?** Roedd y staff yn trafod union gynnwys y gofal a ddarperid i blant yn gyson. Roedd hyn yn golygu’r ffordd yr oeddent yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, gweithgareddau a chyfleoedd a ddarperid, ac a allent fyw fel plant nad ydynt yn byw mewn gofal. Elfen allweddol o hyn oedd personoleiddio.

   *“Byddwn yn eu cynghori i bwysleisio pwysigrwydd cynlluniau personol, oherwydd dylai cynllun personol pob plentyn fod yn benodol i’w anghenion a dylid ei adolygu’n aml er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei anghenion wrth i’w fywyd newid.”*

# Beth nesaf?

Rydym yn galw ar lywodraethau’r DU i weithredu ar unwaith mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol plant, fel bod plant sydd mewn gofal yn cael y cartrefi o ansawdd uchel, y cariad a’r cymorth y mae arnynt ei angen i ffynnu.

Rhagor o wybodaeth: **actionforchildren.uk/APlaceToCallHome**

# Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar iawn i’n staff sydd â phrofiad o ddarparu cartrefi i blant sydd mewn gofal yng Nghymru am rannu eu barn broffesiynol gyda ni.

## Plentyndod hapus a diogel

Mae Gweithredu dros Blant yn amddiffyn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu gofal ymarferol ac emosiynol, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac ymgyrchu i wella eu bywydau'n barhaol.

## Safe and happy childhood

Action for Children protects and supports children and young people, providing practical and emotional care and support, ensuring their voices are heard, and campaigning to bring lasting improvements to their lives.

**Action for Children**
St David's Court
68a Cowbridge Road East, Cardiff CF11 9DN

Llys Dewi Sant
68a Heol y Bontfaen, Caerdydd CF11 9DN

actionforchildren.org.uk

/actionforchildren

@actnforchildren

@actionforchildrenuk

Action for Children is registered as a charitable company limited by guarantee in England & Wales under number 04764232.
Registered charity numbers 1097940/SC038092. © Action for Children 2024. ACT-0163.